



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person



## ADRAN 1: MANYLION SWYDD


<b>Teitl Swydd:</b>	Swyddog Cyfranogiad (De Cymru)
<b>Lleoliad Gwaith:</b>	Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd
<b>Cyfarwyddiaeth:</b>	Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau
<b>Adran:</b>	Dysgu ac Ymgysylltu
<b>Isadran:</b>	Datblygu Mynediad, yr Archif Ddarlledu Genedlaethol
<b>Band:</b>	3
<b>Cyflog:</b>	£23,157 - £28,176
<b>Cytundeb:</b>	Gorffennaf 1 2022-Mehefin 30, 2024
<b>Yn adrodd i:</b>	Rheolwr Datblygu Mynediad, yr Archif Ddarlledu Genedlaethol

**Pwrpas cyffredinol y rôl:** Bydd y swydd hon yn cydlynu ac yn hwyluso cyflwyno gwaith ar gasgliadau sgrin a sain gydag unigolion, grwpiau, gwirfoddolwyr ac artistiaid creadigol. Wedi'i leoli yng Nghanolfan Mileniwm Cymru (CMC) yng Nghaerdydd, bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ledled de Cymru. Bydd y Swyddog Cyfranogiad yn aelod o dîm yr Archif Ddarlledu Genedlaethol a bydd yn gweithio ochr yn ochr â staff eraill y prosiect i gyfrannu at elfennau estyn allan a marchnata prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol.

## ADRAN 2: Y GYFARWYDDIAETH

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn un newydd sbon ac yn gyfrifol am gyflawni nifer o ffwythiannau strategol pwysig, megis cyfathrebu a phartneriaethau, ymgysylltu, adnabod a datblygu cynulleidfaoedd, gwirfoddoli, cyfranogi a dysgu, hyrwyddo a marchnata, arddangosfeydd, profiad yr ymwelydd, codi incwm, ac mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, codi arian. Mae pob un o'r ffwythiannau hyn yn elfennau allweddol ac hanfodol o Gynllun Strategol y Llyfrgell ac yn ymwneud â meysydd sydd ymhlith blaenoriaethau pennaf y Llyfrgell.

## ADRAN 3: SIART DREFNIADOL



## ADRAN 4: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- Gweithio gyda staff y prosiect i drefnu grwpiau a gwirfoddolwyr i archwilio a dehongli archifau sgrin a sain mewn lleoliadau ar draws de Cymru, gan gynnwys Canolfan y Mileniwm.
- Sefydlu a rheoli prosiectau creadigol gydag artistiaid sy'n defnyddio deunyddiau sgrin a sain i gyflwyno allbynnau creadigol, gan gynnwys rheoli cyllidebau a chomisiynu hwyluswyr prosiectau
- Cefnogi'r cydweithio rhwng Canolfan y Mileniwm a LIGC, a chynnal perthynas ag Archifau Lleol a sefydliadau eraill ar draws de Cymru

- Cynorthwyo staff prosiect i sefydlu a goruchwyllo lleoliadau ar draws de Cymru lle gall pobl gael mynediad i gasgliadau sgrin a sain.
- Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gyrraedd grwpiau penodol - cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn arbennig - ac ar gyfranogwyr sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, gan gynnwys ardaloedd Cyfuno.
- Cynorthwyo gyda gweithgareddau eraill sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, gan ddatblygu a chynnal cysylltiadau â chyfranogwyr a sefydliadau ledled y rhanbarth.
- Cynorthwyo i gyfathrebu a chynnal perthnasau gyda defnyddwyr yr Archif Ddarlledu (gan gynnwys ymwelwyr, gwirfoddolwyr ac ymchwilwyr) trwy wahanol fathau o ohebiaeth gan gynnwys fforwm ar-lein y prosiect, cyfryngau cymdeithasol, wyneb yn wyneb, ac ymholiadau dros y ffôn ac e-bost.
- Gweithio gyda'r Swyddog Hawliau i sicrhau bod clipiau'n cael eu clirio i'w defnyddio ar-lein.
- Gweithio gyda staff eraill y prosiect i ddatblygu cynnwys digidol yn seiliedig ar ddeunyddiau a gedwir yn yr Archif Ddarlledu Genedlaethol.
- Sicrhau bod allbynnau a digwyddiadau prosiect yn cael eu dogfennu trwy ffotograffau a fideos astudiaethau achos.
- Cynnal dealltwriaeth gyffredinol o ddeddfwriaeth 'Diogelu Data' a 'Rhyddid Gwybodaeth'

*Darperir y Disgrifiad Swydd hwn er mwyn rhoi amlinelliad bras i ddeiliad y swydd o'r gweithgareddau sydd ymhlyg yn y rôl hon. Bydd y Llyfrgell am i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu cynnwys yn y disgrifiad swydd ond sydd yn gymesur â graddfa'r swydd. Gellir diwygio'r Disgrifiad Swydd o bryd i'w gilydd o fewn y ffin a lefel y cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.*

## ADRAN 5: CYFRIFOLDEB

### Cyfrifoldeb dros bobl:

- Sefydlu prosiectau creadigol gydag artistiaid
- Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr
- Goruchwylio gwirfoddolwyr
- Cynorthwyo defnyddwyr, gan gynnwys ymwelwyr ac ymchwilwyr

### Cyfrifoldeb dros reolaeth cyllid:

- Cyllidebau ar gyfer prosiectau creadigol gydag artistiaid yn y Ganolfan a'r Corneli Clip

## ADRAN 6: CYSYLLTIADAU GYDAG ERAILL

Cysylltiadau Mewnol	Natur y Cysylltiad
Rheolwr Datblygu Mynediad yr Archif Darlledu Cenedlaethol (Rheolwr Llinell)	Cynnydd y prosiect, targedau ac ati.
Staff Prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol	Cydlynnydd Gwirfoddoli (trefnu grwpiau o wirfoddolwyr), staff TG (datrys problemau a chymorth), Swyddog Hawliau (clirio hawlfraint), Tîm Marchnata (cyfathrebu gwybodaeth i ddefnyddwyr yr Archif Ddarlledu), staff eraill y prosiect (datblygu cynnwys digidol ar gyfer Canolfan y Mileniwm a Corneli Clip)
Staff Canolfan Mileniwm Cymru	Prif bwynt cyswllt ar faterion gweithredol
Cysylltiadau Allanol	Natur y Cysylltiad
Corneli Clip De Cymru	Prif bwynt cyswllt ar faterion gweithredol
Grwpiau Cymunedol	Datblygu gweithgareddau gyda grwpiau amrywiol yng Nghaerdydd ac ar draws de Cymru
Cymuned creadigol / artistiaid	Datblygu prosiectau, trefnu sesiynau, rheoli taliadau a chyllideb

## ADRAN 7: DATRYS PROBLEMAU

- Problemau ymarferol sy'n codi o fod yn rhan o dîm prosiect sy'n gweithio ar safleoedd gwahanol
- Problemau ennill ymddiriedaeth grwpiau a chymunedau
- Problemau bod yn brif pwynt cyswllt gydag amryw o safleoedd
- Problemau cyfathrebu gyda phrosiect cymhleth a nifer o gyfranwyr

## ADRAN 8: PENDERFYNU

- Blaenoriaethu gwaith i gyflawni targedau prosiect
- Penderfynu ar addasrwydd y cynnwys ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau
- Blaenoriaethu amser ar gyfer cefnogi gwirfoddolwyr a grwpiau mewn gwahanol sefyllfaoedd
- Pryd i gysylltu â rheolwyr neu staff arbenigol
- Penderfyniadau am gynnwys prosiectau creadigol gydag artistiaid

## ADRAN 9: MANYLEB PERSON

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Safon addysg dda</li></ul>	
Profiad	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Trefnu gweithgareddau cymunedol</li><li>○ Cynllunio gwaith, gosod targedau a chyflawni</li><li>○ Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Gweithio gydag artistiaid</li><li>○ Rheoli cyllideb</li></ul>
Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Dealltwriaeth o gymunedau amrywiol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Gwybodaeth am y sector gwirfoddol yng Nghymru</li></ul>
Sgiliau	<ul style="list-style-type: none"><li>○ Sgiliau rhyngpersonol rhagorol</li><li>○ Y gallu i gyfathrebu gyda grwpiau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg</li><li>○ Y gallu i deithio ar draws de Cymru</li></ul>	